## Datganiad y Cadeirydd: Dull a ffefrir o ran penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyfrifol am gynghori'r Senedd ar benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('PSOW'); yn ogystal â phenderfynu ar y telerau sy'n berthnasol i benodiad o'r fath.

Daw cyfnod deiliad presennol y swydd i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Yn ddiweddar, fel Pwyllgor gwnaethom ystyried yr opsiynau ar gyfer recriwtio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru newydd. Gwnaethom hynny yng nghyd-destun etholiad y Senedd sydd i ddod yn 2021, a'r pandemig Covid-19 sy'n parhau.

Ar ôl ystyried ein hopsiynau yn ofalus, rydym wedi cytuno dros dro, yn amodol ar drafodaeth derfynol a chytundeb ar ddechrau 2021, i argymell i'r Senedd y dylid penodi Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro rhwng 1 Awst 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae hyn am gyfnod o 8 mis yn unig. Bydd penodiad Dros Dro o'r fath yn galluogi ein Pwyllgor olynol yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021 i gynnal cystadleuaeth lawn ac agored i benodi'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nesaf.

Rydym o'r farn y bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau y bydd digon o amser i'r broses recriwtio gael ei chynnal mewn ffordd a fydd yn cynyddu ansawdd a nifer yr ymgeiswyr sy'n gallu ymgeisio am y swydd. Bydd hefyd, gobeithio, yn sicrhau ein bod allan o'r cyfnod lle mae'r holl gyrff cyhoeddus, gan gynnwys swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymdrin â'r materion uniongyrchol sy'n ymwneud â'r pandemig COVID-19 byd-eang.

Pe baem yn cychwyn ar y broses recriwtio nawr, mae risg sylweddol, oherwydd yr amser cyfyngedig a'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r pandemig, efallai na fyddai'r broses recriwtio wedi'i chwblhau mewn pryd i'r Senedd wneud penderfyniad terfynol i argymell ymgeisydd cyn i'r Senedd gael ei diddymu ar 7 Ebrill 2021.

Mae'r Pwyllgor yn credu'n unfrydol mai dyma'r dull mwyaf synhwyrol a phragmatig. Caiff y Senedd gyfle i drafod a phleidleisio ar y penodiad Dros Dro arfaethedig yn gynnar yn 2021. Os bydd y Senedd yn cytuno ar y dull gweithredu hwn, gwneir yr argymhelliad i Ei Mawrhydi y Frenhines benodi Nick Bennett yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro ar gyfer y cyfnod a nodir.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCymunedau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales
0300 200 6565